IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD MERCHER, 30 AWST 2023

Yn bressenol: Cynghorydd Ferguson-Thorne(Cadeirydd)

Cynghorwyr Jenkins a/ac Sattar

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - WINE REPUBLIC, HEOL Y DERI, RHIWBEINA

Yn bresennol:

<u>Ymgeiswyr</u>

Adam Phelps a gynrychiolir gan Matthew Phipps

<u>Y Cais</u>

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan WinerepublicUK Ltd mewn perthynas â'r Wine Republic, 6C Heol y Deri, Rhiwbeina, Caerdydd.

Mae’r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â’r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:

(2) Disgrifiad o’r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Siop win a chaffi arfaethedig. Bydd y safle â gosodiad o silffoedd yn bennaf ac mae enghraifft o'r math o olwg a theimlad yn y siop wedi'i amgáu o fewn y llyfryn. Bydd rhywfaint o gwrw crefft ar gael, rydym yn rhagweld y bydd yr ystod yn gymedrol. Ni fydd enwau brand "amlwg" fel Fosters, John Smiths ac ati yn rhan o'r cynnig, bydd y cwrw sydd ar gael yn grefft, yn cael ei brisio'n unol â hynny ac am yr un demograffig (cwsmer craff) ag y gallech ei ddisgwyl o siop o'r math yma".

(3) Oni bai y nodir fel arall, caiff yr eiddo fod ar agor i’r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy’n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol:

Dydd Llun i Ddydd Sul 12:00 i 22:30

(4) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:

Dydd Llun i Ddydd Sul: 12:00 i 22:00

Sylwadau'r Ymgeisydd

Gwahoddwyd Mr Phipps i gyflwyno'r cais. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y cais yn gofyn am drwydded safle ar gyfer siop win a fyddai hefyd yn caniatáu yfed rhywfaint o alcohol ar y safle. Rhoddodd Mr Phipps drosolwg o oriau agor a gweithrediad y safle.

Gan gyfeirio at Atodiad A yn yr adroddiad, esboniodd Mr Phipps gynllun y safle. Nid oedd unrhyw diliau yn y safle a byddai'r busnes yn ddi-arian gyda thaliad drwy lechen.

Roedd yr Atodlen Weithredu a gyflwynwyd gyda'r cais yn cynnwys nifer o amodau ac awgrymwyd y rhain yn dilyn ymgynghoriad cyn ymgeisio gyda Chyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru. Dywedodd Mr Phipps fod yr amodau y gofynnwyd amdanynt yn y sylwadau ysgrifenedig a gafwyd gan Heddlu De Cymru wedi eu derbyn yn llawn, ac eithrio amod 9. Roedd yr amodau yn fras yn union yr un fath â'r rhai a gynhwyswyd yn yr Atodlen Weithredu, ond gan gynnwys rhai mân ddiwygiadau. Yna, crynhodd Mr Phipps yr amodau a gytunwyd.

Gan gyfeirio at y sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan breswylydd lleol, roedd Mr Phipps o'r farn nad oedd yn rhesymol tybio y byddai'r amcan trwyddedu diogelwch cyhoeddus yn cael ei danseilio gan fusnes arall yn y lleoliad hwn. Ar ben hynny, byddai gwastraff yn cael ei storio yng nghefn caeedig y safle nes ei fod yn barod i'w gasglu. Dywedodd Mr Phipps fod y safle'n fach. Roedd pedwar bwrdd yn y safle, gallai pob bwrdd ddarparu ar gyfer uchafswm o bedwar cwsmer ac roedd yn annhebygol iawn y byddai aflonyddwch yn deillio o'u cwsmeriaid yn cyrraedd neu'n gadael ar yr un pryd.

Dywedodd Mr Phipps ei fod wedi cymryd yr amser i ysgrifennu at y gwrthwynebydd er mwyn egluro gweithrediad y busnes a'r amodau a fwriadwyd i gynnal yr amcanion trwyddedu.

I Grynhoi

Roedd Mr Phipps o'r farn bod y cais yn gais synhwyrol, cymedrol gydag amodau cynhwysfawr i gefnogi'r amcanion trwyddedu. Gwahoddodd yr Aelodau i ganiatáu'r cais.

PENDERFYNWYD – bod yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl wybodaeth, ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllawiau Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, WEDI CANIATÁU'r cais, gyda'r amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru.

3 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 am